**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio) (Cymru) 2024**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan Swyddfa'r Prif Filfeddyg o fewn Adran Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio) (Cymru) 2024.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**12 Ebrill 2024**

# Rhan 1

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024") yn gwneud diwygiadau i gyfraith a gymathwyd, yn benodol, penderfyniad Comisiwn yr UE 2000/572/EC ("Rheoliadau'r UE") i ddileu'r gofyniad i baratoadau cig gael eu rhewi'n ddwfn pan fyddant yn cael eu mewnforio i Gymru. Bydd hyn yn caniatáu i baratoadau cig wedi'u hoeri o wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd barhau i gael eu mewnforio, ac yn caniatáu mewnforion yr aseswyd eu risg o weddill y byd (RoW) o 28 Ebrill 2024, yn unol â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban.

O ganlyniad i'r diwygio a wnaethpwyd i Reoliadau'r UE, mae'r offeryn hwn hefyd yn dirymu offerynnau eraill neu ddarpariaeth offerynnau eraill a oedd yn addasu'r amod mewnforio hwnnw.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd Rheoliadau 2024 yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn angenrheidiol i gyd-fynd â rheolaethau mewnforio diwygiedig yr UE a Phrydain Fawr a roddir ar waith gan Fodel Gweithredu Targed y Ffin (BTOM). Pe na bai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud, byddai'r esemptiad presennol sydd ar waith yn dod i ben ar 29 Ebrill. Byddai hyn yn golygu y byddai paratoadau cig sydd heb eu rhewi ar dymheredd mewnol o ddim mwy na –18 °C yn y safle neu'r safleoedd cynhyrchu tarddiad, yn yr UE a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, yn anghyfreithlon i'w mewnforio i Gymru. Byddai'r gofyniad i'r nwyddau hyn gael eu rhewi'n ddwfn yn rhwystr sylweddol i lif masnach rydd.

Mae Rheoliadau 2024 yn cyd-fynd â deddfwriaeth sy'n cael ei chyflwyno gan Lywodraeth y DU i estyn y Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP). Felly, rhaid i Reoliadau 2024 ddod i rym ar 28 Ebrill cyn diwedd y TSP presennol ar 29 Ebrill.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae gwaharddiadau a chyfyngiadau yn ofynion sy'n seiliedig ar y gyfraith sy'n atal neu'n cyfyngu ar allforio a mewnforio nwyddau penodol o drydydd gwledydd,

os yw'r wlad y maent yn cael eu mewnforio iddynt yn credu ei bod yn bosibl y byddant yn peri risg i iechyd anifeiliaid, planhigion neu'r cyhoedd.

I sicrhau parhad yn dilyn y cyfnod gweithredu ar ôl i'r DU adael yr UE, cyflwynodd Gweinidogion Cymru Y Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2021 (O.S. 2021/1) (Cy. 1)) (“Rheoliadau 2021”) i ganiatáu mewnforio i Gymru o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd rai cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a waharddwyd, yr effeithir arnynt gan waharddiadau a chyfyngiadau, o 1 Ionawr i 31 Mawrth 2021.

Mae'r ataliad dros dro ar y gwaharddiad wedi cael ei estyn yn flaenorol gan yr offerynnau canlynol:

- Gwnaed *Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/376) (Cy. 117))*, a estynnodd yr ataliad ar y gwaharddiad tan 30 Medi 2021.
- *Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/977) (Cy. 231))* i estyn yr ataliad ar y gwaharddiad tan 31 Rhagfyr 2021. Roedd hyn yn galluogi cymhwyso rheolau mewnforio presennol i baratoadau cig wedi’u hoeri tan 31 Rhagfyr 2021 yn unol â'r 'dull graddol' o reoli mewnforion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU;
- *Rheoliad 3 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2021/1480) (Cy. 382)*. Roedd yr OS hwn yn estyn yr ataliad ar y gwaharddiad tan 30 Mehefin 2022.
- *Rheoliadau Paratoadau Cig (Cymru) (Diwygio) 2022 (O.S. 2022/618) (Cy. 140)*. Roedd yr OS hwn yn estyn yr ataliad ar y gwaharddiad tan 31 Rhagfyr 2022.
- *Rheoliad 3 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Cymru) 2022 (2022/1317) (Cy. 266).* Roedd yr OS hwn yn estyn yr ataliad ar y gwaharddiad tan 31 Ionawr 2024.
- *Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasu Trosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2024 (2024/17) (Cy. 6).* Mae'r OS hwn wedi ymestyn atal y gwaharddiad tan 29 Ebrill 2024.

Roedd yr estyniadau hyn yn galluogi cymhwyso rheolau mewnforio i baratoadau cig wedi’u hoeri i gyd-fynd â dull o ymdrin â rheolaethau ar y ffin sy’n esblygu ar gyfer Prydain Fawr gyfan, ac yn unol â'r estyniadau cyfatebol i'r cyfnod graddoli trosiannol (“transitional staging period”), fel y'u diffinnir ym mharagraff 2 i Atodiad 6 i Reoliad (EU) 2017/625 a ddargedwir.

Gwneir Rheoliadau 2024 o dan y pŵer a roddir gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau Masnach Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379) (Cy. 252). Maent yn gymwys i Gymru a dônt i rym ar 28 Ebrill 2024.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Prif ddiben y ddeddfwriaeth yw caniatáu mewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri pan fo’r amodau cludo a thymheredd yn gallu bodloni'r un lefel o ddiogelwch â phe baent yn cael eu cynhyrchu yn y DU. Mae'r polisi yn bodloni rhwymedigaethau Sefydliad Masnach y Byd (WTO), sy'n golygu na chaiff mesurau penodol i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac anifeiliaid wahaniaethu'n annheg rhwng gwledydd. Mae'r polisi yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol ac asesiad risg. Mae'r rhain yn gymwys i bob gwlad, ac yn adlewyrchu newidiadau a wnaed gan y Llywodraethau Datganoledig eraill fel bod dull wedi'i gysoni o ran gofynion mewnforio, gan ddarparu eglurder i fewnforwyr a gwledydd sy'n allforio.

Bydd Rheoliadau 2024 hefyd yn sicrhau dull cyson ar gyfer mewnforion ac yn rhoi eglurdeb cyfreithiol i fasnachwyr. Hebddynt, byddai'n anghyfreithlon i fasnachwyr fewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri o’r UE / Ardal Economaidd Ewropeaidd o 29 Ebrill 2024 gan y byddai’r esemptiad yn dod i ben. Gallai hyn gael effaith andwyol ar rai busnesau a'r cwsmer terfynol yng Nghymru, gan y byddai argaeledd rhai cynhyrchion yn cael ei gyfyngu.

## 5. Yr hyn mae'r offeryn yn ei wneud

Mae rheoliad 2 o Reoliadau 2024 yn diwygio Rheoliadau’r UE drwy ddileu Erthygl 3(3) o Reoliadau’r UE sy’n datgan bod yn rhaid i baratoadau cig o drydydd gwledydd gael eu rhewi ar dymheredd o ddim dros – 18 °C yn y safle neu’r safleoedd cynhyrchu tarddiad.

Mae rheoliad 3 o Reoliadau 2024 yn dirymu'r ataliad dros dro ar baratoadau cig i gael eu rhewi'n ddwfn a gynhwysir yn rheoliad 3 o Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2021. Yn ogystal, mae hefyd yn dirymu'r offerynnau statudol a'r darpariaethau sydd wedi dod i ben sydd wedi'u rhestru yn Adran 3 y ddogfen hon.

## 6. Ymgynghoriad

Nid yw'r gofyniad am ymgynghoriad yn codi o dan Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. Felly, nid yw Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori mewn perthynas â'r offeryn hwn. Fodd bynnag, bu trafodaethau helaeth ledled Prydain Fawr â rhanddeiliaid o fewn y diwydiant bwyd-amaeth ac â phartneriaid cyflawni sy'n gyfrifol am reolaethau ar y ffin (fel awdurdodau ffiniau lleol, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion a'r Asiantaeth Safonau Bwyd) ers Ionawr 2021.

Hefyd, bu ymgynghori â gweinyddiaethau eraill y DU, a'r ASB ar y polisi a effeithiwyd gan yr offeryn hwn. Mae'r sefyllfa barhaol newydd hon ynghylch yr holl nwyddau P&R ar gyfer mewnforion wedi'i threialu gyda'r Gymdeithas Masnachwyr Cig Rhyngwladol (IMTA) mewn fforwm rhanddeiliaid rheolaidd dan

arweiniad Defra, ac mewn nodyn rhanddeiliaid i gymdeithasau masnach POAO ym mis Ionawr 2024 (na chafwyd unrhyw ymatebion iddynt). Anfonwyd llythyr pellach gan Defra ym mis Mawrth 2024 at randdeiliaid ynghylch gweithredu Model Gweithredu Targed y Ffin yn ehangach a oedd hefyd yn amlinellu ac yn cyfeirio at y newidiadau y mae'r Rheoliadau hyn yn eu gwneud.

## 7. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Mae swyddogion o'r farn bod hyn yn rhan o'r broses bontio rhwng ymadael â’r Undeb Ewropeaidd a sefydlu cyfundrefn y DU ar gyfer rheoli ffiniau a mewnforion yn y tymor hir. Mae Rheoliadau 2024 yn dileu’r gofyniad cyffredinol bod yn rhaid i baratoadau cig o drydydd gwledydd fod wedi'u rhewi ar dymheredd mewnol o ddim mwy na – 18 °C yn y safle neu’r safleoedd cynhyrchu tarddiad. O ganlyniad, nid yw Rheoliadau 2024 yn newid polisi presennol (na'i effaith ddisgwyliedig) mewn unrhyw ffordd sylweddol, gan nad yw'r gofyniad hwn erioed wedi bod yn ymarferol gymwys i wledydd yr UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd, a byddai ceisiadau pob gwlad Gweddill y Byd yn cael eu hasesu am risg i sicrhau eu bod yn bodloni safonau'r DU.